

# Cyflwr chwarae 2022

Adroddiad Asesiadau Digonolrwydd Chwarae
a Chynlluniau Gweithredu 2022

**Cyflwyniad**

Mae Chwarae Cymru wedi cynnal dadansoddiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) a Chynlluniau Gweithredu Chwarae awdurdodau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022.

Dyma'r nawfed adolygiad cenedlaethol i Chwarae Cymru ei gwblhau. Mae'n ehangu ar yr adroddiad Cyflwr Chwarae a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2000, ac a ddiweddarwyd gan Chwarae Cymru wedi hynny yn 2003, 2006, 2009 a 2011. Ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae Chwarae Cymru wedi adolygu'r ADCh a gyflwynwyd yn 2013, 2016 a 2019. Mae hefyd wedi adolygu amrywiol Adroddiadau Cynnydd yn ystod y blynyddoedd rhwng y rhain.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn rhwng mis Awst a mis Hydref 2022. Gofynnwyd i Chwarae Cymru ddarparu trosolwg:

- o'r cyflawniadau a'r heriau o dan y prosesau gofynnol a phob Mater sy'n ofynnol yn yr ADCh
- o'r negeseuon allweddol a'r prif themâu sy'n codi o'r ADCh ar gyfer 2022
- o effeithlonrwydd y prosesau, y dulliau a'r templedi a ddefnyddir ar gyfer cwblhau'r ADCh
- o argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth benodol am gyfleoedd i chwarae ar gyfer plant anabl ynghylch mynediad i ofodau chwarae'r tu allan, fel ardaloedd chwarae a meysydd chwarae. Adroddir ar hyn yn hwyrach yn yr Atodiad: Hygyrchedd mannau chwarae ar gyfer plant anabl.

Yn ogystal ag adolygu pob ADCh a Chynllun Gweithredu, mae'r dadansoddiad hwn wedi ei gefnogi gan drafodaethau gyda swyddogion arweiniol digonolrwydd chwarae.

**Cefndir polisi**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae plant ers datganoli, gan gyhoeddi polisi chwarae cyntaf y byd yn 2002. Fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu er mwyn cefnogi chwarae plant. Gosodwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae. Mae hyn yn cael ei adnabod bellach fel y 'Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae'.

Bydd Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno bob tair blynedd. Cyflwynwyd y cyntaf o'r ADCh teirblynyddol hyn ym mis Mawrth 2013. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu a chyflwyno Cynlluniau Gweithredu Chwarae blynyddol ac yn adrodd ar y rhain trwy Adroddiadau Cynnydd blynyddol.

Ym mis Tachwedd 2019, penderfynodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol symud ymlaen gydag Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Nod yr adolygiad oedd asesu gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi chwarae ac i hysbysu sut mae Llywodraeth Cymru'n datblygu a gyrru'r agenda chwarae yn ei blaen.

Rheolwyd yr adolygiad gan y Tîm Polisi Chwarae o fewn Isadran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd bwrdd prosiect mewnol o swyddogion traws-bolisi Llywodraeth Cymru i ddarparu rôl craffu cyffredinol trwy gydol oes y prosiect. Sefydlwyd grŵp llywio o weithwyr traws-broffesiynol o arbenigwyr chwarae a gwaith chwarae, a swyddogion polisi o Lywodraeth Cymru, i gefnogi'r adolygiad.

Gohiriwyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pwysau a'r ansicrwydd ddaeth yn sgîl y pandemig coronafeirws (COVID-19). Ailgychwynnwyd yr adolygiad yng ngaeaf 2021 a gofynnwyd i Chwarae Cymru gydlynu drafftio adroddiad yr adolygiad. Cyflwynwyd yr adroddiad a phapur cefndir i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2022.

Mae Cyflwr Chwarae 2022 yn ddogfen drafod i hysbysu camau gweithredu a gweithgarwch i'r dyfodol. Dylid ei darllen ochr yn ochr ag Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, sy'n cynnwys adrannau ar ddigonolrwydd chwarae a chyllido a gweithio traws-bolisi.

**Cyfarwyddyd ac offerynnau'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae**

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn gyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol ar asesu ar gyfer a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu

hardaloedd. Mae'n cynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'n rhestru'r Materion y dylid eu hystyried:

- Mater A: Poblogaeth
- Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
- Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
- Mater Ch: Darpariaeth dan oruchwyliaeth
- Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
- Mater Dd: Mynediad i le / darpariaeth
- Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
- Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
- Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol.

Datblygwyd *Y Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* yn 2012 i ddarparu cefnogaeth i bob awdurdod lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012. Paratowyd y pecyn cymorth gan Chwarae Cymru a Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â darparwyr chwarae ledled Cymru fel modd o gynorthwyo gyda gweithredu'r ddyletswydd.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys templed Asesiad Digonolrwydd Chwarae safonedig gyda dros 100 o griteria ar draws y naw Mater. Mae'r templed hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru ar gyfer cyfnodau asesu dilynol er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn polisi, deddfwriaethau a rhaglenni cyllido wedi eu cynnwys a'u diweddaru.

Yn ein adroddiad Cyflwr Chwarae yn 2019, fe wnaethom argymell y dylai Chwarae Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r rhwydwaith swyddogion arweiniol digonolrwydd chwarae ystyried mireinio'r templed er mwyn cynorthwyo gyda chasglu a chyflwyno'r data yn well. Cytunwyd i beidio symud ymlaen gyda'r argymhelliad hwn gan fod digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn un o'r themâu y byddai'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae arfaethedig yn ei archwilio.

**Adolygiad o Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022**

**Prosesau angenrheidiol – crynodeb o gynnydd**

Mae ADCh pob awdurdod lleol yn cynnwys Datganiad o Egwyddorion, sy'n mynegi

gwerth chwarae. Mae'r adran cyd-destun yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni a chymeradwyo'r ADCh a'r Cynllun Gweithredu.

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn amlinellu nifer o egwyddorion sylfaenol y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol weithio iddynt wrth ymateb i'w dyletswyddau i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Yn ogystal, ceir prosesau angenrheidiol i bob awdurdod lleol eu cwblhau:

- Gweithio mewn partneriaeth
- Ymgynghoriad a chyfranogiad
- Mwyafu adnoddau
- Cysylltiadau â'r cynllun llesiant
- Monitro digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

***Gweithio mewn partneriaeth***

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dynodi bod ansicrwydd a newidiadau a achoswyd gan y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weithio mewn partneriaeth a chydweithredu wrth baratoi'r ADCh a'r Cynlluniau Gweithredu. Er gwaethaf yr heriau hyn, fel mewn adolygiadau blaenorol, ceir enghreifftiau o gydweithredu da rhwng adrannau o fewn awdurdodau lleol. Mae hyn i'w weld amlycaf yn yr ardaloedd hynny sydd â swyddog arweiniol digonolrwydd chwarae dynodedig.

Yn yr ardaloedd hynny ble maent yn bresennol ac yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi chwarae, mae cynghorau tref a chymuned yn parhau i fod yn bartneriaid pwysig. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol mewn ambell achos, ceir nifer o enghreifftiau o ariannu cyfatebol ar gyfer cynlluniau chwarae gwyliau ac ardaloedd chwarae ag offer sefydlog. Cyfeirir hefyd ym mhob ADCh, bod partneriaid trydydd sector yn dal i fod yn ddarparwyr gwasanaethau pwysig, yn enwedig ar gyfer plant allai elwa o gymorth wedi'i dargedu neu wasanaethau arbenigol. Er bod sefydliadau trydydd sector yn trosglwyddo gwasanaethau uniongyrchol neu brosiectau mewn cymunedau, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod awdurdodau lleol yn eu cefnogi'n ariannol i dalu costau isadeiledd craidd. Felly, mae cynaladwyedd yn dal i fod yn fater llosg i'r sefydliadau hyn.

***Mwyafu adnoddau***

Ar hyn o bryd, nid oes ffrwd gyllido genedlaethol benodedig i awdurdodau lleol ar gyfer swyddogaethau chwarae neu ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid cyfalaf a refeniw yn aml i awdurdodau

lleol ar gyfer digonolrwydd cyfleoedd chwarae trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG). Mae'r dyraniadau diweddaraf wedi canolbwyntio ar gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau mwy o gyfleoedd i chwarae fel rhan o'r adferiad wedi COVID-19.

Yn ystod haf 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru raglen beilot Prosiect Gwaith Chwarae: Llwgu yn Ystod y Gwyliau oedd werth £100,000, wnaeth brofi dichonoldeb mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau drwy leoliadau chwarae a chymunedol. Yn dilyn llwyddiant y peilot, dyrannwyd grant o £1,000,000 i'r cynllun hwn yn 2020-21. Oherwydd y pandemig, cafodd cyllid Prosiect Gwaith Chwarae: Llwgu yn Ystod y Gwyliau ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol, ynghyd â £600,000 o gyllid Addysg, i gefnogi darpariaeth ar gyfer plant bregus yn ystod gwyliau haf yr ysgol.

Yn 2020-21, nodir bod cynnwys £3,000,000 o gyllid cyfalaf COVID-19 (a £500,000 o gyllid refeniw ar gyfer prosiect oedd yn gysylltiedig â darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio) wedi cyfrannu at gyfoethogi cyfleusterau, yn enwedig gynorthwyo awdurdodau lleol i ystyried materion oedd yn ymwneud â hygyrchedd. Yn ogystal, cynorthwyodd y cyllid i gynyddu mynediad i gyfleusterau chwarae awyr agored yn unol â'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae.

Yn 2021, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid COVID-19 pellach trwy ddwy raglen i gefnogi plant a phobl ifanc i ddod dros y pandemig:

- Haf o Hwyl – £5,000,000 o gyllid refeniw
- Gaeaf Llawn Lles – £6,000,000 o gyllid refeniw, £5,000,000 o gyllid cyfalaf.

Ym mis Mawrth 2022, dyrannwyd cyllid Costau Byw ar gyfer rhaglen Haf o Hwyl arall a drosglwyddwyd o 1 Gorffennaf tan 30 Medi, wedi i'r ADCh gael eu cyflwyno.

Mae ADCh 2022 yn cyfeirio'n benodol at Haf o Hwyl 2021 a'r Gaeaf Llawn Lles, gyda phob ADCh yn croesawu'r ddwy raglen. Mae nifer yn nodi iddynt dderbyn grantiau mwy o lawer na'r disgwyl neu fwy na'r hyn a dderbyniwyd yn y gorffennol. Er y buddsoddiad derbyniol, bu rhywfaint o anawsterau gyda'r amserlen dynn ar gyfer y ddwy raglen. Mae'r mwyafrif o'r ADCh yn sôn y byddai cael mwy o amser ar gyfer cynllunio a chreu rhaglenni wedi bod o fudd. Mae hyn yn amlwg iawn yn enwedig yn yr ardaloedd hynny sydd heb swyddog neu dîm datblygu chwarae penodedig.

Mae'r adolygiad ADCh yn dangos bod gweinyddu a throsglwyddo'r rhaglenni hyn wedi cyfyngu ar gynnydd camau gweithredu strategol a lefel uwch. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth y cafwyd rhai cyfleoedd na fyddent wedi'u eu symud ymlaen, eu cyfoethogi neu eu datblygu heb y cyllid ychwanegol hwn oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae'r ADCh yn sôn hefyd bod effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar blant wedi cynyddu proffil chwarae'n lleol ac yn genedlaethol. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cyfrannu at fwy o ddiddordeb, ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth gynyddol am werth a buddiannau chwarae ar draws awdurdodau lleol. Cyfeirir yn aml hefyd at rôl y gweithlu gwaith chwarae wrth gefnogi plant i ddod dros y pandemig. Mae'n ymddangos bod y rhaglenni wedi cefnogi gweithio partneriaeth gan fod dyrannu symiau mawr o arian yn dibynnu ar ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau a throsglwyddo.

Mae'r ADCh yn cydnabod bod rhaglenni Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles wedi eu croesawu gan deuluoedd. Fodd bynnag, mynegir pryderon y bydd y lefel gwasanaeth yma'n tyfu'n ddisgwyliad, ac mae cynnal hyn yn heriol heb sicrwydd cyllid. Trwy'r rhaglenni hyn, efallai bod plant wedi profi cyfleoedd newydd nad yw teuluoedd yn gallu eu cynnal yn y tymor hwy oherwydd cost ac argaeledd. Er gwaethaf y pryderon hyn, ystyrir bod y rhaglenni'n helpu awdurdodau lleol a phartneriaid i ddarparu cymorth hanfodol i adferiad wedi effeithiau corfforol ac emosiynol y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig.

Yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, cymeradwywyd £1,000,000 ar gyfer y cynllun dan enw newydd, sef Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae (llwgu yn ystod y gwyliau) wnaeth ganolbwyntio ar gefnogi mynediad i fwy o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r mwyafrif o ADCh yn nodi'r effaith cadarnhaol y mae'r gronfa hon yn ei gael ar y gallu i weithio'n fwy strategol a chynaliadwy.

Un nodwedd benodol ar draws yr ADCh yw'r effaith gafodd y Prosiect Gwaith Chwarae wrth gefnogi twf yn yr isadeiledd i gefnogi trosglwyddo'n lleol a gweithio'n fwy strategol. Mae'r grant Prosiect Gwaith Chwarae wedi cefnogi datblygiad yn ogystal ag atgyfnerthu'r ddarpariaeth. Fe wnaeth hefyd alluogi cynaladwyedd staff felly mae hyfforddiant a gwybodaeth yn cael ei ehangu a'i ddatblygu.

***Ymgynghoriad, cyfranogiad ac ymgysylltiad***

Mae'n bwysig cydnabod y bu'n hynod o heriol i awdurdodau lleol ymgysylltu gyda phartneriaid, plant a chymunedau yn ystod paratoi ADCh 2022. Mae pob ADCh yn crybwyll bod amser, adnoddau, capasiti a blaenoriaethau wedi newid mewn ymateb i'r pandemig. Mae cyfyngiadau cysylltiedig y cyfnodau clo a chyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio hefyd ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu. Mae nifer o ADCh yn adrodd bod rhaid i ymgynghoriadau chwarae gystadlu gydag amrywiaeth o ymgynghoriadau a gynhaliwyd, yn cynnwys paratoi'r asesiad anghenion llesiant a gwaith arolygon eraill.

Er gwaethaf y pwysau hwn, mae’n ymddangos bod ymrwymiad parhaus i sicrhau y glynir at egwyddorion sylfaenol ymgynghoriad, cyfranogiad ac ymgysylltiad. Mae pob asesiad yn dynodi rhyw lefel o ymgysylltu gyda phlant a rhieni.

Ceir Holiadur Bodlonrwydd Chwarae safonol ar gyfer plant yn y pecyn cymorth ADCh. Mae nifer fechan o ddiwygiadau a gwelliannau wedi’u gwneud dros amser. Tra bo’r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi defnyddio’r holiadur ar ei ffurf safonol, mae eraill wedi ei addasu neu ddatblygu eu fersiwn eu hunain. Tra bo rhaid i bob awdurdod lleol gwblhau’r ADCh mewn modd sy’n ateb ei sefyllfa a’i anghenion lleol orau, mae’r defnydd o holiaduron ansafonol ledled Cymru’n golygu nad yw cyfleoedd i ystyried darlun Cymru-gyfan o safbwyntiau plant am ddigonolrwydd chwarae yn bosibl.

Trwy’r holiadur, mae plant yn dweud wrthym yr hyn sy’n dda am y cyfleoedd chwarae yn eu hardal leol ac yn dweud wrthym pa mor fodlon maen nhw ynghylch pryd, sut a ble y gallant chwarae. Mae Chwarae Cymru hefyd yn dadansoddi’r holiaduron a gwblhawyd gan bron i 7,000 o blant ar draws 15 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o’u ADCh yn 2022. Cyhoeddir ein hadroddiad ar hyn yn ystod Gaeaf 2022.

Mae nifer o gynlluniau gweithredu’n crybwyll yr ymrwymiad i gynnal ymgynghoriadau dyfnach gyda phlant a chymunedau. Mae hyn ar ffurf ymchwil weithredu ar lefel cymdogaeth neu gyda grwpiau ffocws penodol o blant. Mae’r ymrwymiad yma’n fwy cyffredin ble ceir capasiti datblygu chwarae un ai o fewn yr awdurdod lleol neu sefydliad partner.

**Y Materion digonolrwydd chwarae**

Fel soniwyd eisoes, mae naw Mater sydd angen eu hystyried wrth asesu ar gyfer a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae'r adran hon yn dynodi cryfderau a diffygion cyffredin trwy ddadansoddiad SWOT o bob Mater fel rhan o adolygiad Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) 2022.

| **Mater A – Poblogaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Gwelliant parhaus yn y ffordd y cesglir data a'i ddefnyddio<br><br>Gwell dealltwriaeth o'r ystod o ddata sydd ar gael<br><br>Mae rhannu data rhwng swyddogion a sefydliadau yn dangos gwelliant | Data cyfyngedig ar gyfer rhai grwpiau o blant<br><br>Capasiti amrywiol gan ALl i goladu a dadansoddi data<br><br>Mae'n dibynnu ar ddata Cyfrifiad sydd wedi dyddio | Bydd data Cyfrifiad 2021 yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf<br><br>Dynodi ffynonellau data eraill y gellir eu defnyddio, fel gwybodaeth gan fyrddau iechyd<br><br>Cynnig hyfforddiant i staff awdurdodau lleol i ddeall ac ymgymryd â chasglu a dadansoddi data | Adnoddau cyfyngedig i ddefnyddio data ac i gynllunio'n effeithlon<br><br>Cymorth cyfyngedig gan arbenigwyr lleol |

| Mater B – Diwallu anghenion amrywiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Darpariaeth gynyddol ar gyfer grwpiau penodol<br><br>Gweithio partneriaeth pan mae cyllid ar gael<br><br>Enghreifftiau da o wasanaethau cynhwysol sydd wedi'u staffio<br><br>Adrodd cynhwysfawr ar Fater B | Diffygion parhaus ar gyfer rhai grwpiau, fel plant Sipsiwn a Theithwyr, plant hŷn a darpariaeth Gymraeg<br><br>Mae gwasanaethau arbenigol yn dueddol o gael eu lleoli mewn ardaloedd mwy poblog<br><br>Gall darparu ar gyfer amrywiaeth fod yn fater cymhleth ac nid yw'n ateb 'sy'n addas i bawb' | Archwiliadau mynediad ar gyfer darpariaeth dan do<br><br>Defnyddio pecyn cymorth Chwarae Cymru *Creu mannau chwarae hygyrch* yn lleol<br><br>Gwerthfawrogiad o ddarpariaeth gynhwysol ymhlith plant a theuluoedd<br><br>Ehangu ar weithio partneriaeth da a gefnogir gan raglenni Llywodraeth Cymru | Mae teuluoedd yn chwilio am ddarpariaeth unigolaidd, nid yw hyn yn ymarferol bob tro<br><br>Mae gwasanaethau arbenigol yn anodd eu dylunio, eu hariannu a'u cynnal<br><br>Cystadlu am gyllid, sy'n gyfyngedig<br><br>Gall cyllid wedi'i dargedu achosi i rai grwpiau deimlo eu bod wedi ymddieithrio a'u tan-wasanaethu<br><br>Gall darparu ar gyfer amrywiaeth fod yn gymhleth ac nid yw'n ateb 'sy'n addas i bawb' |

| Mater C – Y lle sydd ar gael i blant chwarae<br>○ mannau agored<br>○ mannau chwarae penodedig heb eu staffio, y tu allan | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Mae rhai ADCh yn cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG)<br><br>Defnydd da o gyllid cyfalaf i wella cyfleusterau a materion sy'n ymwneud â mynediad<br><br>Ceir polisïau cyflenwol sy'n gwarchod a gwella mannau agored<br><br>Enghreifftiau da o ddarpariaeth ar gyfer chwarae'r tu allan y gellir eu datblygu<br><br>Defnydd da o gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi chwarae'r tu allan | Cwtogi cyllidebau cynnal a chadw<br><br>Adnoddau cyfyngedig yn gyffredinol<br><br>Sgiliau cyfyngedig staff<br><br>Mae rhai Asesiadau Mannau Agored yn hen<br><br>Mae rhywfaint o ddryswch o ran y termau a ddefnyddir yn y criteria sy'n golygu bod dehongliadau'n amrywio<br><br>Mae rhai ardaloedd yn rhy ddibynnol ar bartneriaethau gweithredol gyda grwpiau cymunedol a chynghorau tref a chymuned<br><br>Nid yw teuluoedd a phlant yn adnabod mannau agored y gellir eu defnyddio ar gyfer chwarae | Cynlluniau Datblygu Lleol newydd ar draws pob ardal<br><br>Ymrwymiad i gynnal archwiliadau mynediad<br><br>Ymrwymiad i gynnal asesiadau gwerth chwarae<br><br>Hyrwyddo gwerth mannau agored anffurfiol yn well (sy'n cysylltu gyda Mater Dd)<br><br>Cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd chwarae'r tu allan | Dibynnu ar gyllido<br><br>Mae newid cyfeiriad meddyliau ynghylch newid dyluniad a darpariaeth yn heriol<br><br>Mae swyddogion chwarae'n ei chael yn anodd ymgysylltu'n llawn gyda materion sy'n ymwneud â lleoliad a dyluniad mannau chwarae<br><br>Mae ardaloedd sydd heb gynghorau tref a chymuned neu grwpiau cymunedol dan anfantais<br><br>Mae ailadrodd o fewn y templed ADCh yn peri dryswch<br><br>Mae pwysau ariannol ar gyllidebau cynnal a chadw yn effeithio hefyd ar lefel ac ansawdd darpariaeth – a diwedd y gân yw diogelwch yn hytrach nac ansawdd |

| **Mater Ch – Darpariaeth dan oruchwyliaeth**<br>○ **darpariaeth gwaith chwarae**<br>○ **gweithgareddau hamdden strwythuredig** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Mae'n ymddangos bod Dewis Cymru yn cael defnydd helaeth yn y mwyafrif o ardaloedd<br><br>Dealltwriaeth resymol o ddarpariaeth gweithgareddau hamdden strwythuredig yn lleol<br><br>Amrywiaeth o gyfranogiad partneriaid, yn enwedig mewn darpariaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden<br><br>Defnydd da o gyllid Llywodraeth Cymru | Asesu ansawdd mewn lleoliadau gwaith chwarae<br><br>Gall cyrraedd darpariaeth fod yn heriol ar gyfer grwpiau sydd wedi'u gwthio i'r cyrion, plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig | Bydd cynllun sicrhau ansawdd (*Chwarae o Safon*) ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae, a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru a'u partneriaid, ar gael yn fuan<br><br>Gwell defnydd o Dewis Cymru<br><br>Ehangu ar weithio partneriaeth fu'n nodwedd o drosglwyddo rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles | Mae darpariaeth dan oruchwyliaeth yn dibynnu'n helaeth ar gyllido parhaus<br><br>Y disgwyliad y bydd rhaglenni gweithgareddau diweddar yn parhau |

| Mater D – Codi tâl am ddarpariaeth chwarae | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Mae data da ar draws y criteria sydd angen ei ystyried<br><br>Fe wnaeth rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles ddarparu ac ehangu ystod o gyfleoedd ar gyfer plant a theuluoedd<br><br>Ble mae capasiti, mae awgrymu syniadau chwarae rhad ar gyfer y cartref yn cael eu rhannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn lleoliadau | Mae effaith biliau cynyddol yn golygu bod cymorthdaliadau yn anodd<br><br>Diffyg mewn darpariaeth teithio gymorthdaledig | Mae defnydd da o gyllid Llywodraeth Cymru yn cynnig enghreifftiau o arfer da i'r dyfodol | Mae argaeledd darpariaeth am ddim yn dibynnu ar gyllid grant / cyllido parhaus<br><br>Bydd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar allu plant i gael mynediad i rai cyfleoedd, yn enwedig rai sy'n codi tâl, neu ble bydd angen offer i gymryd rhan |

| **Mater Dd – Mynediad**<br>○ **i le / darpariaeth**<br>○ **i wybodaeth, cyhoeddusrwydd, digwyddiadau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Ble ceir capasiti, mae nifer o awdurdodau lleol yn gwneud defnydd da o'r cyfryngau cymdeithasol<br><br>Mae diddordeb cynyddol mewn cefnogi strydoedd chwarae mewn nifer o ardaloedd | Mae traffig yn dal i gael ei ddynodi fel rhwystr i chwarae, er gwaethaf buddsoddiad mewn mentrau diogelwch ffyrdd<br><br>Mewn rhai ardaloedd, mae camddealltwriaeth ynghylch y prosesau sydd eu hangen i gefnogi strydoedd chwarae | Gwell defnydd o Dewis Cymru<br><br>Mynd i'r afael â chamddealltwriaeth sy'n ymwneud â darpariaeth strydoedd chwarae, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer da o ardaloedd eraill<br><br>Mae'r terfyn cyflymder diofyn 20mya yn cefnogi trafodaethau ac yn helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch ffyrdd<br><br>Gall Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eiriol dros chwarae | Mae rhieni'n pryderu ynghylch diogelwch, sy'n cyfyngu ar allu plant i wneud y gorau o chwarae yn y gymdogaeth<br><br>Mae rhai darparwyr sydd ddim yn rhannu gwybodaeth gyfredol gyda Dewis Cymru |

| Mater E – Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Mae nifer o ardaloedd yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol<br><br>Ceir enghreifftiau o weithwyr gofal plant, chwaraeon ac ieuenctid yn cael eu hyfforddi mewn gwaith chwarae<br><br>Mae cymwysterau ar gael trwy Addysg Oedolion Cymru ac eraill<br><br>Mae gwaith chwarae wedi ei gynnwys mewn ambell Gynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant<br><br>Defnydd da o gyllid Prosiect Gwaith Chwarae | Mae dryswch rhwng y termau y *gweithlu gwaith chwarae* a'r *gweithlu chwarae*, er gwaetha'r ffaith bod diffiniadau wedi'u cynnwys yn y templed ADCh<br><br>Camddealltwriaeth ynghylch lefel y cymwysterau sydd angen mewn lleoliadau gwaith chwarae wedi'u staffio<br><br>Mae rhywfaint o gyfyngiadau i beth o'r hyfforddiant sydd ar gael | Cynnal archwiliadau o'r gweithlu<br><br>Cynnwys gwaith chwarae mewn cynlluniau datblygu'r gweithlu<br><br>Datblygu a throsglwyddo seminarau byrion neu weithdai ar gyfer adrannau eraill o'r cyngor<br><br>Gweithio mewn partneriaeth gyda Chwarae Cymru i drosglwyddo gweithdai Deall Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (UPS) a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru | Gall cyllid fod yn gyfyngedig ac yn anodd cael mynediad iddo<br><br>Mae materion recriwtio a chadw staff wedi eu heffeithio'n negyddol gan COVID-19 |

| Mater F – Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Mae cydnabyddiaeth gynyddol ymysg teuluoedd a chymunedau am bwysigrwydd chwarae<br><br>Cafwyd cefnogaeth dda gan sefydliadau partner i gynorthwyo gyda gwaith holiaduron chwarae 2022<br><br>Enghreifftiau da o ymgysylltu anffurfiol gyda chymunedau trwy waith allgymorth a diwrnodau chwarae teuluol<br><br>Enghreifftiau da o ymgysylltu cymunedol yn dod i'r amlwg | Cynhaliwyd llu o ymgynghoriadau ar ystod eang o faterion yn ystod COVID-19<br><br>Golygodd cyfyngiadau COVID-19 bod ymgysylltu'n anodd | Datblygu strategaeth glir ar gyfer ymgysylltu gyda phlant, rhieni a chymunedau gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer ar waith<br><br>Sicrhau adolygu a defnydd cyson o ddulliau ac offerynnau ymgysylltu<br><br>Gweithio gyda phartneriaid, fel cynghorau tref a chymuned, cymdeithasau tai ac eraill er mwyn cynyddu eu sgiliau | Gall ymgynghori gael ei ystyried fel ymarfer untro sydd ddim yn arwain at welliannau neu newidiadau<br><br>Mae capasiti a sgiliau i gynnal gweithgareddau ymgysylltu yn amrywio |

| Mater Ff – Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Gall y mwyafrif o ADCh enwi aelod a swyddog arweiniol dros chwarae<br><br>Mae llawer yn cyfeirio at sut all yr ADCh hysbysu'r Cynlluniau Llesiant<br><br>Mae ymchwil i ddigonolrwydd chwarae wedi creu'r cysylltiadau rhwng chwarae a lles<br><br>Mae proffil pwysigrwydd chwarae wedi ei gynyddu | Mae grwpiau monitro chwarae yn anodd eu cynnal<br><br>Mae swyddogion oedd yn deall a chefnogi digonolrwydd chwarae wedi gadael dros amser – mae capasiti a gwybodaeth wedi'u colli mewn rhai meysydd polisi<br><br>Mae swyddogion ar draws pob maes polisi wedi eu gorlwytho<br><br>Mae aelodau etholedig newydd ers yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae diwethaf yn 2019 wedi arwain at golli profiad<br><br>Mae ambell adran o'r templed yn cael eu cwblhau ar wahân, sy'n arwain at gamddeall rhai o'r criteria | Creu cysylltiadau rhwng chwarae a lles yn lleol<br><br>Hyrwyddo digonolrwydd chwarae i swyddogion ac aelodau etholedig newydd gan ddefnyddio pecyn hyfforddi Deall Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (UPS) (fydd ar gael yn fuan oddi wrth Chwarae Cymru) | Bygythiadau i gyllid a chefnogaeth os na chaiff chwarae ei werthfawrogi ar draws ardal yr awdurdod lleol<br><br>Agwedd ddi-drefn tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws yr ardal<br><br>Diffyg ymateb cydweithrediadol tuag at ADCh i'r dyfodol |

## Yr offerynnau Asesu Digonolrwydd Chwarae

Mae cynnwys yr ADCh yn adlewyrchu'r isadeiledd, y capasiti a'r wybodaeth digonolrwydd chwarae yn lleol. Mewn nifer o achosion, mae Materion penodol yn derbyn mwy o sylw manwl. Mae hyn yn debyg o adlewyrchu'r cynllun gwaith neu wybodaeth y swyddog sy'n cwblhau'r asesiad cyflawn.

Gwelir amrywiaeth parhaus yn y defnydd o'r templed ADCh – ac mae hyn y ddealladwy gan ei fod yn ymwneud â chapasiti a materion lleol. Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu sylw at y materion hyn:

- Mae lefel y manylion ar gyfer pob un o'r criteria yn amrywio ar draws yr holl asesiadau a gyflwynwyd.
- O ganlyniad i ddiffyg capasiti, mae nifer o'r adrannau'n cael eu rhannu gyda chydweithwyr o fewn yr awdurdod lleol i'w cwblhau. Mae hyn yn arwain at weld rhai o'r criteria'n cael eu camddeall neu heb eu cyflawni.
- Mae'n ymddangos bod adrannau o'r ADCh wedi'u cwblhau gan adrannau ar wahân i'w gilydd. Er nad yw hyn yn fater newydd, dylid nodi efallai bod newid swyddogion yn ystod oes y broses ADCh yn effeithio ar wybodaeth a dealltwriaeth o chwarae a'r broses digonolrwydd chwarae, a thrwy hynny'n dylanwadu ar yr asesiad a'r statws RAG.
- Gwelir defnydd anghyson o'r statws RAG.
- Ble fo adrannau wedi'u cwblhau ar wahân, mae'n ymddangos bod y dadansoddiad yn oddrychol yn hytrach na'n asesiad corfforaethol cytûn.
- Ceir ailadrodd yn y templed ADCh presennol.
- Nid yw'r templed presennol yn dilyn ystyriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch hygyrchedd dogfennau (yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ag Apiau ar gyfer Dyfeisiau Symudol) 2018).
- Mae'n heriol i awdurdodau lleol hwyluso Grwpiau Monitro Chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd sydd heb swyddog digonolrwydd chwarae penodedig.

## Templed Cynllun Gweithredu Chwarae

Mae llawer o'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae yn gymharol fanwl ac, mewn ambell achos, yn darllen fel cynllun gwaith, yn hytrach na chynllun gweithredu. Mae'n ymddangos y byddai nifer yn elwa o gynnal ymarfer blaenoriaethu. Mae dyfnder y manylion ar draws nifer o gynlluniau gweithredu yn ei gwneud yn anodd pwyso a mesur sut gaiff camau gweithredu eu cwblhau yn eu cyfanrwydd. Mae pob ardal yn ystyried camau gweithredu ar draws ystod gyflawn y Materion; fodd bynnag, gallai

absenoldeb Grwpiau Monitro Chwarae gweithredol ar lefel leol olygu bod cyflawni rhai o’r camau gweithredu’n heriol.

**Crynodeb**

Mae'r dadansoddiad o'r ADCh yn dynodi bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae wedi gweithredu fel symbyliad cenedlaethol ar gyfer cynllunio darpariaeth chwarae'n lleol. Mae'r adolygiad yn awgrymu bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn teimlo bod COVID-19 wedi codi proffil chwarae'n lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r ADCh yn nodi bod mesurau cyfnodau clo COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar allu awdurdodau lleol i sicrhau digonolrwydd darpariaeth yng nghyd-destun rhai o'r Materion. Trafodir effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio, ardaloedd chwarae dynodedig ac ymgysylltu cymunedol yn ystod yr amrywiol gyfnodau clo.

Er i'r pandemig achosi ansicrwydd a chyfyngiadau annisgwyl na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, bu hwn hefyd yn gyfnod o arloesi ac arbrofi. Llwyddodd awdurdodau lleol a'u partneriaid i aildrefnu eu hunain er mwyn dod ynghyd i gynnig cymorth a chefnogaeth. O ymgysylltu ar-lein a darparu adnoddau chwarae i blant, gweithiodd sefydliadau plant a chwarae ledled Cymru yn galed i wneud yn siŵr bod chwarae'n dal i fod yn fater o bwys ar agenda pawb. Ceir enghreifftiau hefyd o sefydliadau a thimau chwarae ar draws Cymru'n sicrhau bod gan blant bresenoldeb chwareus a chyfleoedd i chwarae yn eu cymdogaethau trwy gynnig darpariaeth chwarae a syniadau ar chwarae'r tu allan. Er gwaethaf yr heriau a achoswyd yn benodol gan y pandemig, mae'r ADCh yn dangos tystiolaeth barhaus o fuddiannau gweithio trawsadrannol er mwyn cyfrannu at sicrhau digonolrwydd.

Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd chwarae ar gyfer iechyd a lles mewn canllawiau a thrwy ddarparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chamau gweithredu digonolrwydd chwarae fel rhan o becyn ariannu Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau. Arweiniodd ffocws ar ddarpariaeth gwaith chwarae ar gyfer plant bregus yn ystod haf 2020 at bartneriaethau cryfach rhwng swyddogion digonolrwydd chwarae a gwasanaethau plant eraill. Adroddodd nifer o dimau chwarae am well cydweithrediad ac ymdeimlad o gydnabyddiaeth gynyddol.

Er gwaethaf heriau'r blynyddoedd diwethaf, mae pob ADCh yn arddangos ymrwymiad i sicrhau newid cadarnhaol, gyda chydnabyddiaeth bod angen cofio ystyried capasiti ac adnoddau sy'n bodoli eisoes. Mae'n sicr bod cefnogaeth ac amrywiol becynnau cyllid Llywodraeth Cymru wedi arwain at weithgarwch cynyddol i sicrhau cyfleoedd chwarae ledled Cymru.

**Argymhellion**

Ystyried ac ymateb i'r argymhellion sy'n ymwneud â digonolrwydd cyfleoedd chwarae a geir yn adroddiad grŵp llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Gweithio gyda Chwarae Cymru, a'r Rhwydwaith Swyddogion Digonolrwydd Chwarae y mae'n ei hwyluso, i adolygu a diweddaru'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae*.

Dylid hefyd adolygu a diweddaru'r templed ADCh. Dylid adolygu hwn ar gyfer pob cylch ADCh.

Gweithio gyda Chwarae Cymru, a'r Rhwydwaith Swyddogion Digonolrwydd Chwarae y mae'n ei hwyluso, i adolygu a mireinio'r Templed Asesiad Digonolrwydd Chwarae a'r Templed Cynllun Gweithredu Chwarae.

Talu sylw i'r effaith y mae'r Argyfwng Costau Byw yn ei gael ar ddarpariaeth a chyflawni'r hawl i chwarae, sy'n dod o dan y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae.



# Atodiad 1:

Hygyrchedd mannau chwarae ar gyfer plant anabl

**Cefndir**

Adroddodd rhai plant anabl eu bod yn wynebu cael eu hynysu, eu heithrio a dioddef unigrwydd. Gallai hyn fod oherwydd amgylchedd sydd wedi'i ddylunio'n wael, agweddau sy'n cadarnhau gwahaniaethau neu effeithiau anhwylderau a namau sy'n cyfyngu ar annibyniaeth a chyfranogiad yr unigolyn. Pan fyddwn yn dylunio mannau sy'n cael pethau'n iawn ar gyfer plant anabl, gall mwy o blant chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, gan ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ystod lawn o alluoedd. Mae'r profiadau cynnar hyn yn bwysig ar gyfer ffurfio goddefgarwch a dealltwriaeth o wahaniaethau.

Yn 2017, ariannodd Llywodraeth Cymru Chwarae Cymru i ddatblygu pecyn cymorth *Creu mannau chwarae hygyrch*. Bwriad y pecyn cymorth yw cefnogi awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, gwleidyddion ar bob lefel, cynllunwyr mannau agored, cymdeithasau tai a rheolwyr meysydd chwarae eraill i'w cynorthwyo wrth gyflawni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddarparu cyfleoedd i chwarae.

Yn 2022, cyhoeddodd UK Children's Play Policy Forum a'r Play Safety Forum *Cynnwys plant anabl mewn darpariaeth chwarae*. Mae'r datganiad ar y cyd hwn yn darparu diffiniadau defnyddiol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid i'w hystyried:

'Mae *Man Chwarae Hygyrch* yn ofod sydd yn rhydd o rwystrau, sy'n caniatáu mynediad i ddefnyddwyr symud o gwmpas y gofod ac mae'n cynnig cyfleoedd cyfranogaeth ar gyfer ystod o wahanol alluoedd. Ni fydd pob plentyn o bob gallu yn medru defnyddio popeth sydd mewn man chwarae hygyrch.

Mae *Man Chwarae Cynhwysol* yn cynnig amgylchedd sy'n rhydd o rwystrau, ynghyd â'r isadeiledd ategol, sy'n ateb anghenion chwarae eang ac amrywiol pob plentyn. Bydd plant anabl a phlant sydd ddim yn anabl yn mwynhau lefelau uchel o gyfleoedd cyfranogi, sydd yr un mor gyfoethog o ran gwerth chwarae'.

**Yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a mynediad i ofod chwarae'r tu allan**

Mae'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* yn cynnwys amrywiol adnoddau a thempledi i gefnogi awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys archwiliad mynediad y gellir ei ddefnyddio a'i addasu ar lefel leol. Mae'r holl adnoddau a ddarperir yn y pecyn cymorth wedi'u hysbysu gan y model cymdeithasol o anabledd, yn yr un modd â chyfarwyddyd statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.

Mae'r cyfarwyddyd statudol yn rhestru'r naw Mater sydd angen i awdurdodau lleol eu hystyried. Mae pedwar Mater penodol yn ymwneud â chwarae cynhwysol:

- **Mater B – Diwallu anghenion amrywiol**: sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol a phartneriaid i anelu i gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a chymdeithasu. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau mynediad ar gyfer pob darpariaeth chwarae a sicrhau bod proses gytûn, y mae pawb yn ei deall a ddefnyddir i ddynodi'r angen am ddarpariaeth ar wahân ar gyfer plant anabl.
- **Mater C – Y lle sydd ar gael i blant chwarae:** sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal archwiliadau mynediad ym mhob man chwarae dynodedig a chyflawni cynlluniau i wella mynediad a diogelwch.
- **Mater Dd – Mynediad i le a gwybodaeth:** sy'n gofyn i awdurdodau lleol adrodd ar weithgarwch i wella mynediad i'r gofod a'r wybodaeth mae'n eu darparu ar gyfer plant a'u teuluoedd.
- **Mater F – Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys:** sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i ymgynghori'n eang gyda phlant, eu teuluoedd, a rhanddeiliaid eraill ar eu barn am ddarpariaeth chwarae. Yn ogystal, mae criteria'r Templed Asesiad Digonolrwydd Chwarae'n mynnu y dylai awdurdodau lleol hyrwyddo mentrau i ymgysylltu â grwpiau perthnasol wrth gyfoethogi cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd lleol. Bydd awdurdodau lleol yn gofyn am sylwadau plant a phobl ifanc anabl fel rhan o'r broses hon.

**Adolygiad o Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022 a mynediad i ofod chwarae'r tu allan – *cyflawniadau***

Mae ateb anghenion chwarae pob plentyn trwy ddarparu gofod chwarae awyr agored hygyrch yn dal i fod yn flaenoriaeth ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid yng Nghymru. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod mwy o ystyriaeth i egwyddorion cyffredinol cynwysoldeb. Ble roedd rhaglenni buddsoddi cyfalaf ar gael, mae materion cynwysoldeb wedi eu hystyried yn ddoeth a'u darparu ar eu cyfer. Mae pob awdurdod lleol yn adrodd am ryw fath o gamau gweithredu i greu gofod chwarae hygyrch wrth adnewyddu neu ddatblygu meysydd chwarae newydd. Yn anad dim, mae llawer yn cydnabod bod angen cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) wrth osod cytundeb i ddatblygwyr.

Mae enghreifftiau penodol o arfer da yn cynnwys:

- Mae'r awdurdod lleol yn mynnu y dylai unrhyw gontractwr sy'n tendro ar gyfer datblygu man chwarae ddylunio ar gyfer hygyrchedd a chynnwys datganiad hygyrchedd gydag unrhyw ymgais. Caiff hyn ei gynorthwyo gan ymarferion ymgynghori sy'n cynnwys y gymuned leol a phartïon â buddiant ar yr hyn maent yn credu dylai safleoedd ei gynnwys er mwyn sicrhau bod

cynigion / briffiau mor gywir â phosibl o gychwyn cynllunio prosiectau. Mae'r ystod o chwarae hygyrch ac offer synhwyraidd wedi cynyddu o ganlyniad i ymgynghori manwl gyda defnyddwyr.

- Caiff eitemau cynhwysol eu cynnwys yn yr ardal chwarae, ble bynnag y bo modd.
- Mae lled gatiau, arwynebau llwybrau a mynediad yn cael eu hystyried fel rhan o'r dyluniad.
- Dogfen 'ystyriaethau allweddol' sy'n gweithredu fel arweiniad ar gyfer cyfoethogi mannau chwarae sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chyflwyno mannau newydd.
- Wrth adnewyddu neu ddatblygu meysydd chwarae newydd, mae'r Cyngor yn llunio papur briffio sy'n cynnwys canllawiau a pharamedrau ar gyfer contractwyr. Bydd y briff yn cynnwys nifer o ofynion. Mae'r rhain yn cynnwys gofyn i'r contractwr egluro eu hagwedd tuag at ddylunio, yn cynnwys sut y bydd yn sicrhau mynediad addas ar gyfer pobl anabl. Mae gofyn hefyd i ddarparwr yr ardal chwarae ddarparu Datganiad Hygyrchedd Anabl. Mae hwn wedi ei amlinellu'n gwbl glir yn y ddogfen briffio.
- Defnyddir yr holl ganllawiau perthnasol (er enghraifft, yr hyn a ddarperir gan RoSPA) wrth adnewyddu neu ddatblygu ardaloedd chwarae newydd – er enghraifft lleoliad, dyluniad, offer ac arwynebau.
- Sicrhau bod pob datblygiad newydd a chynlluniau adnewyddu'n ymgorffori elfennau chwarae synhwyraidd a chynhwysol o fewn y cynllun.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- Cynnal ymgynghoriadau gyda phlant, cynghorau cymuned a thrigolion lleol
- Timau datblygu chwarae'n cynnal archwiliadau mynediad mewn gofodau chwarae awyr agored
- Ystyried anghenion ehangach (e.e. toiledau newid) mewn cyfleusterau mwy o faint.

Mae'r adolygiad yn arddangos bod y cyllid cyfalaf a ddarperir i awdurdodau lleol trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG) wedi ei ddefnyddio trwy Gymru i gefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â materion hygyrchedd yng nghyd-destun mannau chwarae awyr agored. Mae cyllido wedi galluogi:

- Prynu a gosod siglenni basged hygyrch, siglenni â harnais, rowndabowts
- Prynu a gosod byrddau picnic sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, arwynebau caled a llwybrau cyswllt
- Prynu a gosod gatiau hydrolig sy'n cau eu hunain

- Prynu offer synhwyraidd y gellir ei ddefnyddio mewn amrywiol leoliadau trwy gynlluniau benthyca
- Gosod ardaloedd synhwyraidd y tu allan
- Gwelliannau i arwynebau a llwybrau mewn ardaloedd chwarae
- Gwelliannau i arwyddbyst, byrddau dehongli a phontydd troed mewn mannau agored cyhoeddus er mwyn caniatáu mynediad i ddefnyddwyr anabl
- Nifer o ardaloedd i ystyried hygyrchedd i'r grwpiau ehangaf o blant gyda rhai'n cyfeirio at offer niwtral o ran rhywedd yn ogystal ag offer sy'n ateb anghenion chwarae arddegwyr
- Gwell gwybodaeth i rieni, yn cynnwys lleoliad cyfleusterau.

**Adolygiad o Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022 a mynediad i ofod chwarae'r tu allan – *heriau***

Mae'r mwyafrif o ADCh a gynhaliwyd yn 2022 yn dangos gostyngiad mewn cyllidebau cynnal a chadw ardaloedd chwarae a diffyg adnoddau ariannol dynodedig ar gyfer buddsoddi mewn, diweddaru ac adnewyddu safleoedd hŷn. Yn ogystal, dynododd yr adolygiad nifer o heriau:

- Mae datblygiad y mwyafrif o ardaloedd chwarae yn rhagflaenu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a datblygwyd nifer ohonynt gydag arwynebau ac offer sydd ddim yn cefnogi hygyrchedd neu chwarae cynhwysol.
- Ceir disgwyliad dealladwy, ond afrealistig weithiau, ymhlith trigolion bod pob ardal a gofod chwarae sefydlog yn gwbl hygyrch.
- Mae gan lawer o ardaloedd stoc eang o ardaloedd chwarae sefydlog sydd angen eu diweddaru gyda'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael.
- Mae ambell awdurdod lleol wedi trosglwyddo cyfrifoldeb am ardaloedd chwarae i gynghorau tref a chymuned neu grwpiau cymunedol. Gall y rhain fod yn grwpiau byrhoedlog sydd angen cymorth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd a chynhwysiant.
- Fel arfer, bydd hygyrchedd yn galw am gynnal gwaith ffisegol o ostwng ymylon palmentydd i greu llwybrau i fannau chwarae. Yn aml bydd hyn yn galw am arbenigedd o wahanol feysydd gwasanaeth.
- Mae offer hygyrch, fel rowndabowt neu siglen y gellir ei defnyddio gan ddefnyddwyr cadair olwyn, yn sylweddol ddrutach nag offer safonol.
- Stoc sy'n heneiddio sy'n gweithio ond sy'n cynnig fawr ddim gwerth chwarae neu gyfleoedd ar gyfer cynhwysiant.

**Casgliad**

Mae nifer o ADCh yn dynodi bod awdurdodau lleol wedi ymrwymo cyllid ychwanegol ar gyfer ardaloedd chwarae dynodedig. Mae'n ymddangos bod gwella hygyrchedd wedi bod yn rhan hanfodol o'r gwaith yma. Mae ADCh yn adrodd bod darparu cyfleoedd hygyrch yn y mannau chwarae eu hunain wedi bod yn gymharol gyrraeddadwy. Fodd bynnag, mae yna heriau wrth wneud gwelliannau i'r hen isadeiledd, fel llwybrau mynediad.

Ar y cyfan, ceir cydnabyddiaeth y dylai pob plentyn gael mynediad i gyfleoedd i chwarae a bellach gwelir defnydd cynyddol or termau: 'hygyrchedd' a 'chwarae cynhwysol'. Mae cysyniad cynhwysiant, ar y cyfan, wedi ei groesawu gan ddarparwyr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddryswch yn parhau am y derminoleg, ac mae hyn wedi arwain at ddisgwyliad y dylai pob offer chwarae gael ei addasu ar gyfer defnyddwyr penodol. Mae darparwyr lleol yn adrodd iddi fod yn anodd ar brydiau i gyfleu neges sy'n pwysleisio pwysigrwydd darparu gofodau sy'n galluogi plant – waeth beth eu gallu – i chwarae gyda'i gilydd.

Tachwedd 2022

**www.chwaraecymru.org.uk**

Rhif elusen gofrestredig 1068926